

# Polisi Iaith Gymraeg ar Gyfer Pob Ysgol

---

Mae polisi iaith Gymraeg yr Awdurdod yn ceisio sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd safon dwyieithrwydd. Cyfrifoldeb yr Awdurdod, mewn cydweithrediad â'r Pennaeth a Llywodraethwyr yr Ysgol, fydd sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu dysgu'n unol â gofynion Cwricwlwm i Gymru.

Darperir Addysg Gynradd i bob plentyn yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg, neu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg.

Darperir Addysg Uwchradd i bob plentyn yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg, neu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn sicrhau dilyniant â'r ysgolion cynradd, dysgir Cymraeg fel ail iaith ym mhob ysgol uwchradd lle y mae Saesneg yn brif gyfrwng dysgu.

Fel arfer, bydd disgyblion a gafodd eu haddysg gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn symud i Ysgol Maes Garmon pan gyrhaeddant Blwyddyn 7.

Mae modd hefyd i ddisgyblion ysgolion cynradd Saesneg symud i Ysgol Maes Garmon. Yno cânt fanteisio ar y cynllun trochi ar ddiwedd Blwyddyn 6 a thrwy gydol Blwyddyn 7.